**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Ionawr 2022**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O GYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Bobby Feeley – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 6 ar yr Agenda<br>Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 6 ar yr Agenda<br>Y Cynghorydd Tony Thomas – Cysylltiad Personol - Eitem Rhif 7 ar yr Agenda<br>Y Cynghorydd Meirick Davies – Cysylltiad Personol - Eitem Rhif 8 ar yr Agenda |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.* |
| **5** | DYFARNU CONTRACT CYFLENWI DEUNYDDIAU AR GYFER CYNNAL A CHADW TAI DRWY FFRAMWAITH CYMRU GYFAN ADRA | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo mynd i gontract cyflenwi deunyddiau adeiladu gyda Travis Perkins drwy Fframwaith Deunyddiau Cymru Gyfan Adra am gyfnod o bedair blynedd, ac yn*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | ESTYNIAD I GONTRACT Y GWASANAETHAU HAMDDEN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i roi estyniad am gyfnod o ddeuddeng mis i gyfnod contract gwasanaethau hamdden a wnaed rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Denbighshire Leisure Limited ar 1 Ebrill 2020 yn unol â chymal 2.2 y contract.* |
| **7** | GWERTHUSIAD O'R DEWISIADAU AR GYFER MODEL DARPARU GWASANAETH NEWYDD AR GYFER Y GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU | ***PENDERFYNWYD****, wedi adolygu ac ystyried y dewisiadau a amlinellir ac a werthusir yn yr adroddiad parthed model newydd cyflenwi gwasanaethau ar gyfer y gwasanaethau refeniw a budd-daliadau, bod y Cabinet yn ardystio'r argymhellion a wnaed gan dîm y prosiect, gan ganiatáu'r awdurdodiad i swyddogion CSDd ddechrau trafodaethau ac ymgysylltiad gyda Civica a phartïon eraill, er mwyn mynd rhagddo gyda'r argymhelliad o ddod â'r gwasanaeth refeniw a budd-daliadau yn ôl i'r Cyngor mewn trawsnewidiad effeithiol heb unrhyw effaith* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *niweidiol ar ddarparu'r gwasanaeth ac mewn cyfnod derbyniol o amser.* |
| **8** | GOSOD RHENT TAI, A REFENIW A CHYLLIDEBAU CYFALAF 2022/23 | ***PENDERFYNWYD***<br><br>*(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2022/23 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad);*<br><br>*(b) cynyddu rhent anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £97.27 i'w weithredu o ddydd Llun 4 Ebrill 2022;*<br><br>*(c) nodi'r adroddiad ychwanegol (Atodiad 3 i'r adroddiad) am Effeithiolrwydd Cost, Fforddiadwyedd a Gwerth am Arian, a*<br><br>*(ch) bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **9** | CYLLIDEB 2022/21 - CYNIGION TERFYNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi effaith Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2022/23;*<br><br>*(b) cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac y manylir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2022/23;*<br><br>*(c) argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog arfaethedig o 2.95% yn y Dreth Gyngor;*<br><br>*(ch) argymell i'r Cyngor bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian sydd wedi'i* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500mil os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod y Dreth Gyngor yn amserol, a*<br><br>*(d) cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 i'r adroddiad).* |
| **10** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllido y cytunwyd arni.* |
| **11** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.* |